 **Chwefror 10fed 2019** 

**Croeso cynnes i chi gyd i'r oedfa. Y Parchg Dyfrig Rees, Ysg Cyffredinol yr enwad fydd yn arwain ein defosiwn y bore 'ma, gyda Carwyn Lloyd Jones yn llywyddu, a Bethan yn cyfeilio. Diolch rhag blaen i'r tri ohonoch.**

## Yr Wythnosau Nesaf

**Chwefror 17 – oedfa i'r teulu gyda Dafydd a Lowri Roberts a Siân yn cyfeilio**

**Chwefror 24ain Parchg Gethin Rhys gydag Eluned Davies Scott ag Eleri yn cyfeilio**

**Mawrth 3ydd – Oedfa'r Pentrefi gyda Phentre'r Eglwys a Thonteg a Siân yn cyfeilio**

**Mawrth 10fed – Emlyn Davies gyda Carol Williams, a Rhiannon yn cyfeilio**

**Mawrth 17eg – Sul Teuluol gyda Wendy, Huw a Beth, a Siân yn cyfeilio**

**Mawrth 24ain – Y Parchg. Gethin Rhys, gyda Wyn Jones a Bethan yn cyfeilio**

## Merched y Tabernacl

**Dydd Mercher 6 Mawrth 12.30 pm ar gyfer 1.00 pm**
**Cinio i Ddathlu Dydd Gwyl Ddewi yng Ngwesty'r Bear, Bontfaen**
**Enwau os gwelwch yn dda i Beti Treharne sy'n gyfrifol am y trefniadau.**

## APÊL MADAGASCAR UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Fe roddodd yr Ysgol Sul a'r Twmiaid ddechrau anrhydeddus i'n hymgyrch ni drwy godi dros £500 yn eu Swper Cynhaeaf, ac mae'r casgliad yn tyfu'n raddol. Mae gyda ni tan mis Mehefin i gyrraedd ein nod o £5,000. Cofiwch am yr amlenni bach gwyn gydag "Apêl Madagascar" arnyn nhw. Gobaith yr Annibynwyr Cymraeg ydy codi £200,000 i gefnogi pedair elusen sy'n gweithio gyda'r tlawd a'r anghenus ym Madagascar, un o bedair gwlad dlotaf y byd.

## Cydymdeimlo

**Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf at Jen MacDonald a'r teulu cyfan ar golli Mike wedi salwch hir. Cynhelir ei angladd am ganol dydd, 12 Chwefror yn Eglwys Groesfaen.**

## Gwellhad buan

Anfonwn ein cofion at Morfudd Huws – sy ar hyn o bryd mewn ysbyty yn Rhufain – cafodd lawdriniaeth ar ei chlun bore Gwener ar ôl cael codwm cas yn y gwesty lle roedden nhw'n aros. Yn ôl adroddiadau aeth y llawdriniaeth yn iawn – dddoe roedd Morfudd reit gyfforddus – ond wyddon ni ddim pryd y caiff ddod adre ar hyn o bryd.

## CYLCH CADWGAN

Nos Fercher 13 Chwefror 2019 am 8.00pm

**ROWLAND WYNNE**

yn siarad ar y testun
'Gwell Dysg na Golud. Gwron Cwmsychbant'
yn Y Ganolfan, Tabernacl, Efail Isaf

## CWRDD CHWARTER DWYRAIN MORGANNWG

**Cyfarfod ar gyfer holl gapeli'r ardal**

**Eglwysi Dementia-Gyfeillgar**

**Siaradwyr:**

Beti George a'r Dr. Zoe Morris Williams

7 o'r gloch

Nos Iau 21ain Chwefror 2019

Capel Bethlehem, Gwaelod y Garth

**Estynnir croeso cynnes i bawb**

Bwcio'r Capel neu'r Ganolfan: carolinerees2@hotmail.com

## Apêl am Gacennau

Yn dilyn yr Oedfa Deuluol fore Sul 17 Chwefror bydd paned ac arwerthiant cacennau yn y Ganolfan i godi arian tuag at gyfraniad y Tabernacl i Apêl Madagasgar Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

Os ydych yn barod i gyfrannu cacennau yna mynnwch air gyda Lowri neu Catrin neu aelodau'r Ysgol Sul a'r Twmiaid.

## Diolch yn fawr

Mae gwybodaeth am waith yr elusennau a llawer mwy ar wefan y capel:
www.tabernacl.org

**Cofiwch am Tafod y Tab sydd ar gael gan eich dosbarthydd lleo, neu holwch Gwilym, yr Ysgrifennydd:**


TAFOD Y TAB Rhifyn 11, Ionawr 2019

# TAFOD Y TAB

*Cylchgrawn Capel y Tabernacl, Efail Isaf*

## Oedfa Heddwch

Union ganrif i'r diwrnod ers cyhoeddi diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf ar 11 Tachwedd 1918, rhoddwyd sylw teilwng yn ein hoedfa ar Sul y Cofio i bump o fechgyn ifanc y Tabernacl a gwympodd yn y brwydro ac a restrir ar y cofebau yn y capel. Geraint Rees oedd Llywydd y gwasanaeth, ac rydym yn ddyledus iddo am gasglu a chyflwyno'r holl wybodaeth am y bechgyn a'u teuluoedd, gan gydnabod hefyd iddo elwa o ymchwil staff y Ganolfan Gydol Oes, Garth Olwg. Ychwanegwyd at ein profiad o erchyllterau a chreulondeb y rhyfel gyda hanes dirdynnol am brofiadau Owain John Penny, taid Emlyn Penny Jones, ar faes y gad. Cyn galw am funud o dawelwch dwys i gofio'r holl filiynau oedd wedi colli eu bywydau yn y gyflafan, adroddodd Eirian Rees gerdd o'i eiddo oedd yn crisialu teimladau pawb oedd yn bresennol cyn symud ymlaen i gyd-ganu'r emyn 'Heddwch ar ddaear lawr'.

Hefyd yn y rhifyn hwn


| | |
|---|---|
| Gwahoddiad i ymaelodi | Tud 2 |
| Merched y Tab | Tud 3 |
| Yr Ysgol Sul a'r Twmiaid | Tud 4-6 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | Tud 7 |
| Y Bechgyn a Gollwyd | Tud 9 |
| Portread | Tud 10-11 |
| Trefn yr oedfaon | Tud 14 |


Neilltuwyd gweddill y gwasanaeth i fyfyrdod grymus gan y Prifardd Aled Gwyn. Prif fyrdwn ei neges oedd gresynu nad oedd yr awdurdodau wedi dysgu dim o ganlyniad i holl golledion dau ryfel byd. Yn hytrach, mae ein harweinwyr yn San Steffan yn parhau i gyfiawnhau gwerthu arfau i wladwriaethau rhyfelgar i'w defnyddio'n ddidrugaredd i ladd plant a phobl ddiniwed.

Seiliwyd ei fyfyrdodau ar rai o gerddi Waldo, a gwerthfawrogwyd didwylledd ei sylwadau amserol gan bawb. Yng ngeiriau Aled, "Er mor ddyrys ac arswydus yw mater rhyfel, braint i mi oedd cael ceisio dweud gair dros y llwybr amgen. Fel dwedodd Waldo, 'Gobaith fo'n meistr, rhoed Amser i ni'n was'." Yn addas iawn, yr emyn a ganwyd cyn ei fyfyrdod oedd 'Iôr, gwna ni'n offeryn dy hedd', a daeth yr oedfa i ben wrth i'r gynulleidfa ganu emyn cyfarwydd Eifion Wyn 'Efengyl Tangnefedd'.

*Ceir rhagor o hanes y pum milwr ifanc y gwelir eu henwau ar y ddwy gofeb ar fur blaen y capel ar dudalen 9.*

*Dosbarth 1 a 2 yn cyflwyno stori'r geni yng ngwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul*

1

## ELUSENNAU 2019

Dyma'r elusennau y byddwn yn eu cefnogi drwy gasgliad yr amlenni brown eleni:
Gofalwyr Ifanc Rhondda Cynon Taf
Adref, Ysgol Tŷ Coch
Cymorth i Ferched Cymru & CRICA
Mae pedair o'r rhain yn lleol ac yn gwerthfawrogi ein cefnogaeth gyson. Mae CRICA yn ymchwilio i Glefyd Crohn ac yn cefnogi plant a phobl ifanc sy'n dioddef o'r cyflwr.

## *CYNHADLEDD WANWYN CRISTNOGAETH 21*

*Ar 29 a 30 Mawrth yn Aberystwyth ar y thema 'Dechrau o'r Newydd'. Bydd cyflwyniad theatrig ar y nos Wener, a darlithoedd ar y Sadwrn gyda Cynog Dafis, Arwel Jones, Catrin Haf Williams, Huw Williams a Gareth Wyn Jones. Mae'r manylion llawn ar ein gwefan:*
http://cristnogaeth21.cymru/newyddion

## CASGLIADAU DILLAD A NWYDDAU

Mae'r casgliadau ar gyfer
Adref, Nantgwyn, a Cwtch yn dal yn weithredol eleni.

Diolch yn fawr iawn i chi i gyd am eich cyfraniadau cyson i'r elusennau allweddol yma.

Maen nhw'n hynod werthfawrogol o'n cefnogaeth.

## YR AMLENNI BROWN

